Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Lesley

Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd yn hysbysu fy Mhwyllgor o'ch penderfyniad i roi caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau uchod ddoe, 6 Rhagfyr.

Trafodwyd eich llythyr yn ein cyfarfod ar 28 Tachwedd. Rydym yn nodi'r rhesymau a roddwyd gennych dros roi caniatâd ac yn cydnabod eich eglurhad o rôl Gweithgor Cynhyrchion Organig y Pedair Gwlad wrth ddatblygu'r Rheoliadau.

Yn benodol, nodwn y rheswm a ganlyn a roddwyd gennych dros roi caniatâd i wneud y rheoliadau hyn ledled Prydain Fawr:

> *"Mae rhanddeiliaid organig yn aml wedi pwysleisio'u dymuniad i gael rheoliadau cyson ledled Prydain Fawr mewn perthynas â safonau organig, a hynny oherwydd bod cadwyni cyflenwi yn drawsffiniol. Mae'n fanteisiol i Gymru sicrhau bod y rheoliadau hyn yn gyson ac yn dod i rym ar yr un pryd ar draws Prydain Fawr."*

Fodd bynnag, rydych hefyd yn nodi y bydd rheoliadau organig newydd yn cael eu datblygu, a "bydd y diweddariad sylweddol hwn i bolisïau organig yn cael ei wneud yn neddfwriaeth Cymru".

I ni, nid yw'n ymddangos bod y datganiadau hyn yn gydnaws: os oes angen rheoleiddio cyson ar randdeiliaid organig ledled Prydain Fawr, ac y gallai rheoliadau organig yn y dyfodol a wneir gan Weinidogion Cymru alluogi rheoleiddio cyson, nid yw'n glir pam na all y rheoliadau a gynigir ar hyn o bryd hefyd gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

Yn hyn o beth, gwnaethoch hefyd ddweud: “Petasai Cymru’n defnyddio OS sydd ond yn berthnasol i Gymru i estyn y rhanddirymiadau hyn, efallai na fydd yn bosibl sicrhau eu bod yn weithredol cyn i’r rhanddirymiad presennol ddod i ben”. Fel rhan o Weithgor Cynhyrchion Organig y Pedair Gwlad, nid yw’n glir pam nad oeddech yn ymwybodol o’r angen i ymestyn y rhanddirymiadau mewn da bryd i alluogi paratoi rheoliadau Cymru’n unig a’u gosod gerbron y Senedd, ochr yn ochr â rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd y DU. Gallai rheoliadau cyfochrog o’r fath fod wedi dod i rym ar yr un dyddiad, gan osgoi unrhyw anghysondeb ar draws Prydain Fawr.

Yn sgil yr uchod, a fyddech cystal â rhoi eglurhad pellach, felly, ynghylch pam na allech baratoi a gosod rheoliadau ar gyfer Cymru'n unig ochr yn ochr â rheoliadau a baratowyd gan Defra.

Yn olaf, a allwch egluro pam y cymerodd bedair wythnos i’n hysbysu o’r Rheoliadau hyn (a’ch penderfyniad i gydsynio iddynt) ar ôl i gais ffurfiol ddod i law ar 24 Hydref, a pham nad oeddech mewn sefyllfa i roi gwybod inni am eich bwriad i gydsynio yn llawer cynharach, o ystyried, yn ôl pob tebyg, bod yr angen i wneud y rheoliadau hyn yn cael ei drafod yn llawer cynharach yn y Gweithgor?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 5 Ionawr 2023.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd